# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 8 Tachwedd 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
4 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Ailstrwythuro Cyngor y Celfyddydau

**C8 David Lloyd:** Pryd y mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd y broses o ailstrwythuro Cyngor y Celfyddydau wedi ei chwblhau? (OAQ13761)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Bydd y strwythur staffio rhanbartholedig newydd ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru ar waith erbyn 31 Mawrth 2002. Mae'r prif weithredwr a'r dirprwy brif weithredwr newydd wedi'u penodi eisoes, a bydd gweddill yr uwch dîm rheoli yn eu dilyn yn y flwyddyn newydd.

### Hybu Celfyddydau Cymunedol a Chelfyddydau ar Lawr Gwlad

**C9 Jocelyn Davies:** Sut y bydd y Strategaeth i Ddiwylliant yn hybu celfyddydau cymunedol a chelfyddydau ar lawr gwlad? (OAQ13762)

**Jenny Randerson:** Mae fy strategaeth ddiwylliant yn dynodi datblygu grwpiau celfyddydau cymunedol yn flaenoriaeth bwysig, oherwydd eu rôl allweddol wrth hybu cyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydau. Gofynnais i Gyngor Celfyddydau Cymru ddatblygu strategaethau i gydnabod pwysigrwydd gweithgaredd cymunedol ar lawr gwlad wrth ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru.

Dymunaf iddo wneud hyn a hefyd diogelu sefyllfa'r cwmnïau sydd â chylch gwaith cenedlaethol, sydd â rôl werthfawr wrth ddatblygu rhagoriaeth, ac wrth hyrwyddo delwedd Cymru yn y DU a thramor. Rhaid iddo wneud hynny mewn cydweithrediad â chwmnïau celfyddydau cymunedol, ac nid mewn cystadleuaeth â hwy.

*Tynnwyd cwestiwn 10 (OAQ13749) yn ôl.*

### Codi Proffil Cymru trwy Raglenni UNESCO

**C11 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyfleoedd i godi proffil rhyngwladol Cymru trwy raglenni UNESCO? (OAQ13763)

**Jenny Randerson:** Dim ond yn ddiweddar yr ailymunodd y Deyrnas Unedig â Mudiad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig, UNESCO, felly mae llawer o waith i'w wneud o ran hybu proffil y corff hwn a'i nodau oddi mewn i'r DU. Mae fy swyddogion newydd ddychwelyd o gynhadledd gyffredinol UNESCO ym Mharis lle y bu iddynt gyfarfod ag aelodau o ddirprwyaeth y DU i UNESCO a lle y buont yn bresennol yn y comisiynau ar ddiwylliant ac addysg.

Bydd mudiad UNESCO y DU yn trefnu cyfarfodydd gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i harneisio arbenigedd a lledaenu gwybodaeth am ei waith. Byddaf yn sicrhau bod Cymru'n chwarae rhan lawn yn yr

ymarfer hwn, ac yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r cyfleoedd pwysig y mae Mudiad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig yn sicr o allu eu cynnig. Yr wyf hefyd yn bwriadu cwrdd â chynrychiolwyr mudiad UNESCO y DU i drafod y modd gorau i ddatblygu ein perthynas weithio a hyrwyddo proffil Cymru'n rhyngwladol.

### Ymweliadau ag America

**C12 Delyth Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei hymweliadau diweddar ag America? (OAQ13735)

**Jenny Randerson:** Bûm yn ymweld ag Efrog Newydd o 18 i 21 Hydref. Teimlais ei bod yn bwysig dangos cydgefnogaeth â phobl Efrog Newydd a chyda'n digwyddiadau diwylliannol yno ar ôl y penderfyniad i fynd ymlaen â gŵyl UKwithNY.

Nid oes dwywaith bod yr ŵyl wedi bod o gymorth i roi Cymru ar y map a hybu ein proffil yn yr UDA.

Cyflwynwyd gweddïau yn ogystal â chydymdeimladau o Gymru i'r ddinas mewn derbyniad Cymreig arbennig yn Neuadd Carnegie, lle'r oeddwn yn llywyddu, ac a gefnogwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru a'r Cyngor Prydeinig.

Ymwelais hefyd â *ground zero* a thelais deyrnged yn Eglwys Fair Wyry'r Llaswyr ym Mharc Battery ym mhen deheuol eithaf Manhattan, lle y cyflwynais weddïau a blodau o Gymru.

### Canolfan Mileniwm Cymru

**C13 Dafydd Wigley:** A wnaiff y Gweinidog adroddiad cryno ar gynnydd ei thrafodaethau diweddar ynghylch Canolfan Mileniwm Cymru? (OAQ13769)

**Jenny Randerson:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i Jocelyn Davies ddydd Iau 25 Hydref (OAQ12791).

### Pêl-Droed ar y Teledu

**C14 Glyn Davies:** Pryd y bydd hi'n cyfarfod nesaf â Chadeirydd Cynghrair Cymru i drafod y sylw a roddir i bêl-droed ar y teledu? (OAQ13739)

**Jenny Randerson:** Nid wyf wedi gwneud unrhyw drefniadau i gyfarfod â chadeirydd Cynghrair Cymru i drafod y sylw a roddir i bêl-droed ar y teledu. Er na allaf ddylanwadu ar benderfyniadau'r darlledwyr ar gynnwys rhaglenni, yr wyf yn ymwybodol o'r teimladau cryf ar y mater hwn a byddaf yn cyfarfod â Helen Mary Jones ar 29 Tachwedd i drafod y pwnc hwn yn fanylach.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ13774) yn ôl.*

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Atal Pobl Ifanc Rhag Gadael Cymunedau Gwledig

**C7 Brian Gibbons:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i atal pobl ifanc rhag ymadael â chymunedau gwledig? (OAQ13665)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones):** Ni allwn *atal* pobl ifanc rhag gadael ond gallwn eu helpu i aros neu i ddychwelyd os hynny yw eu dymuniad. Yn ein 'Cynllun i Gymru 2001' a 'Cymru ar ei Hennill', yr ydym yn rhoi ar ddeall ein bod yn dymuno creu economi wledig gynaliadwy sydd yn darparu sylfaen gyflogaeth eang, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, oddi mewn i Gymru gynaliadwy,

gynhwysol a chyfartal. Bydd yn cymryd cryn amser i welliannau economaidd y mesurau hyn ymwreiddio. Yn y cyfamser, yr ydym yn ymwybodol bod strwythur ein cymunedau gwledig o dan bwysau o hyd, gyda phobl ifanc yn ymfudo'n barhaol wrth iddynt adael i ddilyn gyrfa yn rhywle arall. Felly yr ydym hefyd yn bwriadu dynodi, drwy ymchwil, y camau sydd eu hangen i alluogi pobl ifanc i ddewis aros yn y Gymru wledig neu ddychwelyd iddi os dymunant.

### Codi'r Gwaharddiad ar Hela yn Sgîl Clwy'r Traed a Genau

**C8 David Davies:** Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal mewn perthynas â chodi'r gwaharddiad ar hela yn sgîl clwy'r traed a'r genau? (OAQ13686)

**Carwyn Jones:** Ar y cyd â'r Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, yr ydym yn parhau i fonitro pob agwedd ar gyfundrefn rheoli clwy'r traed a'r genau yng ngoleuni sefyllfa'r clwy ar hyn o bryd.

### Ariannu Prosiectau Biomas

**C9 Peter Black:** Faint o arian sydd ar gael ar gyfer prosiectau biomas yng Nghymru? (OAQ13667)

**Carwyn Jones:** Daw cyllid ar gyfer prosiectau biomas o sawl ffynhonnell, gan gynnwys mesurau a gynhwyswyd yn y cynllun datblygu gwledig i Gymru a'r rhaglen Amcan 1. Yn ogystal â hynny, mae mwy na £36 miliwn ar gael ar hyn o bryd ar gyfer datblygu'r sector biomas yng Nghymru a Lloegr. Dyrennir yr arian hwn ar ôl proses tendro cystadleuol.

### Cyfran o Ddaliadau Amaethyddol Cymru o fewn Cynllun Tir Gofal

**C10 Glyn Davies:** Pa gyfran o ddaliadau amaethyddol Cymru sy'n perthyn i gynllun Tir Gofal? (OAQ13671)

**Carwyn Jones:** Cwblhawyd tua 700 o gytundebau hyd yn hyn yn nwy flynedd cyntaf y cynllun Tir Gofal, sydd yn cynrychioli 3.1 y cant o'r ffermydd sydd yn gymwys i ymuno â'r cynllun. Pan fydd y ceisiadau llwyddiannus sydd yn weddill wedi'u harwyddo bydd y ffigurau hyn yn codi i tua 1,000 o ffermydd a 4.4 y cant yn y drefn honno.

### Ariannu Tir Gofal

**C11 Dafydd Wigley:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu cynllun Tir Gofal? (OAQ13691)

**Carwyn Jones:** Pennwyd cyllideb o £10.9 miliwn ar gyfer Tir Gofal yn 2001-02, £13.9 miliwn yn 2002-03 a £16.9 miliwn yn 2003-04—cyllideb gyffredinol yn y tair blynedd nesaf o ymron i £42 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o £3 miliwn yn yr ail flwyddyn a £6 miliwn yn y drydedd flwyddyn ar ben y symiau sylweddol a oedd eisoes yn llinell sylfaen y Cynulliad ac yn ychwanegu at gyllideb o £42 miliwn ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylchedd eraill, fel yr ardaloedd amgylcheddol sensitif a'r cynllun ffermio organig, dros y tair blynedd nesaf.

### Sefydlu Menter Gydweithredol Gwin Cymru

**C12 David Melding:** A fydd y Gweinidog yn comisiynu astudiaeth ar ymarferoldeb sefydlu menter gydweithredol gwin Cymru? (OAQ13683)

**Carwyn Jones:** Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried unrhyw geisiadau am gymorth o dan y cynllun datblygu marchnata oddi wrth grwpiau cynhyrchwyr sydd yn dymuno gwneud astudiaethau dichonoldeb. Sefydlwyd Cymdeithas Gwin Cymru o dan adain rhaglen bwydydd arbenigol Awdurdod Datblygu Cymru; mae aelodau'r gymdeithas yn asesu eu dewisiadau ar gyfer datblygu ar hyn o bryd, gan gynnwys mabwysiadu strwythur cydweithredol, gyda'r WDA.

### Gwahaniaeth Rhwng y Prisiau a Delir a'r Prisiau a Roddir am Gynnyrch

**C13 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwahaniaeth enfawr rhwng y pris y mae ffermwyr yn ei dderbyn am eu cynnyrch a'r pris y mae defnyddwyr yn ei dalu am gynhyrchion gorffenedig? (OAQ13660)

**Carwyn Jones:** Yr oedd y mater hwn yn destun astudiaeth wyth mis gan y Swyddfa Masnachu Teg ac fe'i cyfeiriwyd wedyn at y Comisiwn Cystadleuaeth ar gyfer ymchwiliad llawn i fonopolïau. Argymhellodd yr Adran Masnach a Diwydiant y dylid datblygu cod ymddygiad gorfodol ar gyfer y diwydiant. Cyhoeddwyd y cod hwn ar 31 Hydref.

### Cyswllt Ffermio

**C14 Eleanor Burnham:** Faint o ffermwyr o dan 40 oed sydd wedi cysylltu â Chyswllt Ffermio? (OAQ13723)

**Carwyn Jones:** Mae'r WDA eisoes wedi derbyn dros 3,000 o ymholiadau ynghylch Cyswllt Ffermio a'r gwasanaethau sydd ar gael. Er nad yw'r gronfa ddata yn cofnodi oed ffermwyr sydd yn gwneud ymholiadiau ar y cam cyswllt cyntaf, mae Cyswllt Ffermio wedi'i gymhwyso i gynorthwyo ffermwyr ifanc a fydd yn derbyn 10 y cant ar ben y cyfraddau grant safonol ar gyfer prosiectau o dan gynlluniau'r grant gwella ffermydd a grant mentrau fferm.

### Strategaeth Fiomas

**C15 Peter Black:** Pryd y caiff ymrwymiad i strategaeth fiomas y Llywodraeth bartneriaeth ei fodloni? (OAQ13668)

**Carwyn Jones:** Gofynnais i'r Comisiwn Coedwigaeth ymgymryd â'r cyfrifoldeb arweiniol dros sefydlu'r gr^wp strategaeth datblygu coetir a biomas. Y bwriad yw y bydd y grŵp strategaeth yn cynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer y sector erbyn Mawrth 2002.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

### Hybu E-fasnach yn y Canolbarth a'r Gorllewin

**C7 Nick Bourne:** Pa gamau a gymerodd Trefnydd i hybu e-fasnach yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (OAQ13720)

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i Peter Black yn y Cyfarfod Llawn yn gynharach heddiw (OAQ13717). Hefyd, mae'r Cynulliad wedi cynorthwyo prosiectau fel prosiect e-fasnach gorau Cymru wledig a'r rhwydwaith ardal wledig amlasiantaethol, sydd yn gweithredu'n benodol yng nghanolbarth Cymru—mae'r ddau yn brosiectau sydd wedi ennill gwobrau.

At hynny, mae'n cynorthwyo amryw o brosiectau ar sail Cymru gyfan, sydd yn ymwneud â darparu cyngor e-fasnach gan gynnwys rhaglen smE-Business Cymru a'r rhwydwaith o ganolfannau cymorth TGCh. Hefyd, bydd y prosiect Amcan 1 mawr, CyflE Cymru, yn helpu miloedd o fusnesau yn ardal y rhaglen.

### Amcan 1 (Gwariant ar Isadeiledd TGCh)

**C8 Dafydd Wigley:** Pa gamau a gymerir i sicrhau y bydd cyfran arwyddocaol o'r arian a neilltuwyd ar gyfer isadeiledd TGCh o dan fesur 1, blaenoriaeth 2, Amcan 1 wedi'i wario erbyn adolygiad canol tymor

y rhaglen? (OAQ13709) *Trosglwyddwyd ar gyfer ateb o dan bortffolio datblygu economaidd Prif Weinidog Cymru.*

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Mae'r bartneriaeth seilwaith Amcan 1 yn ymgynghori ar ei strategaeth newydd, sydd yn cynnwys seilwaith TGCh o dan y mesur hwn. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod pwysigrwydd ariannu prosiectau effeithiol o ansawdd uchel yn y maes hwn a sicrhau y cymerir y cyllid sydd ar gynnig yn gynnar.

**Buddiannau a Ddaw o Cysylltiad â'r Rhyngrwyd**

**C9 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y buddiannau tymor hir a ddaw i Gymru o ganlyniad i'r nifer cynyddol o gartrefi sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd? (OAQ13701)

**Andrew Davies:** Bydd unigolion a theuluoedd sydd â chysylltiad â'r rhyngrwyd yn eu cartrefi yn gallu cael budd o amrywiaeth o gyfleoedd dysgu, gwybodaeth a gwasanaethau ar-lein a ddarperir gan y sectorau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus. Byddant yn gallu ymgymryd â theleweithio neu wneud eu patrymau gwaith yn fwy hyblyg, gan wella bywyd teuluol a chan arwain at fuddion tymor hir i'r gymuned a'r amgylchedd. Bydd cysylltiad â'r rhyngrwyd yn y cartref hefyd yn cynnig cyfleoedd i bobl ddatblygu eu sgiliau TGCh, gan eu galluogi i ddefnyddio'r dechnoleg i ddatblygu busnesau a chymunedau yng Nghymru. Os yw digon o bobl yng Nghymru yn dewis ac yn cael eu galluogi i fynd ar-lein, bydd hyn yn datblygu e-farchnad fewnol (o sgiliau a chwsmeriaid) a fydd yn galluogi busnesau Cymru i dyfu a datblygu eu defnydd o e-fasnach. Bydd hynny yn ei dro yn galluogi'r busnesau hyn i fanteisio ar farchnadoedd byd-eang, lle y mae e-fasnach yn ofynnol. Y brif fantais dymor hir o gael nifer mwy o deuluoedd ar-lein yw cyfraniad hynny at ddatblygu Cymru'n gynaliadwy.

**Bwlch Digidol yng Nghymru**

**C10 Rhodri Glyn Thomas**: Pa gamau a gymerodd y Trefnydd i gau'r bwlch digidol yng Nghymru? (OAQ13708)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn gwella'r mynediad i seilwaith rhwydwaith ystod uchel, gan wneud gwahaniaeth arbennig mewn ardaloedd gwledig. Fel y cam cyntaf yn nghynllun y Cynulliad ar gyfer yr ystod lydan yng Nghymru, cytunwyd ar becyn ystod lydan ar gyfer dysgu gydol oes o £18.5 miliwn eleni a £6 miliwn ym mhob blwyddyn ddilynol. Mae'r Adran Masnach a Diwydiant yn darparu £2.7 miliwn o gyllid ychwanegol i fynd i'r afael ag allgáu digidol drwy ddarparu cysyllteddau 'milltir olaf' mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd.

Er mwyn cynnwys y rheini na allant fforddio, neu na ddymunant gael, cysylltiad gartref, byddwn yn sicrhau bod cysylltu â'r rhyngrwyd yn gyfleus ac yn hygyrch i bawb drwy gysylltiad am ddim mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, a ddarperir drwy rwydwaith y bobl. Mae'r Cynulliad wedi neilltuo £7.4 miliwn i'r fenter hon drwy'r gronfa cyfleoedd newydd. Yr ydym hefyd yn sefydlu rhaglen e-gymunedau bwysig i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a fydd yn cynnwys cyllid Amcan 1 ac a fydd yn ategu gweithgareddau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael budd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

**Effeithiau Datglymu ar E-economi Cymru**

**C11 Eleanor Burnham:** A fyddai'r Trefnydd yn cynnig sylw ar effeithiau cyfraith ddiweddar yr UE ynghylch 'datglymu'r ddolen leol' ar e-economi Cymru? (OAQ13702)

**Andrew Davies:** Mae'r mater hwn yn gyfrifoldeb i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant ynghyd â'r Swyddfa Telathrebu ac nid yw wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad.

**Cyfle Cyfartal i Siaradwyr Cymraeg sydd am Ddefnyddio'r Band Llydan**

**C12 David Lloyd:** Sut mae'r Trefnydd yn mynd i sicrhau cyfle cyfartal i siaradwyr Cymraeg sydd am ddefnyddio band llydan? (OAQ13704) [W]

**Andrew Davies:** Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol rôl bwysig i'w chwarae wrth godi statws yr iaith Gymraeg ym maes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae Cymru Ar-lein yn anelu at sicrhau bod siaradwyr Cymraeg, ble bynnag y bônt yng Nghymru, yn gallu manteisio i'r un graddau â phawb arall ar gyfathrebu band llydan, cyfleusterau yn yr iaith Gymraeg, cymorth technegol a deunyddiau yn y Gymraeg yn ogystal a'r Saesneg. Enghraifft ardderchog yw'r deunydd cwricwlwm digidol a ddatblygir gan y BBC. Mae llawer o arfau a chyfleusterau TGCh dwyieithog a Chymraeg, megis Cysill a Cysgair, eisoes ar gael a bydd Cymru Ar-lein yn eu hyrwyddo ac yn rhoi mwy o gyhoeddusrwydd iddynt. Fel rhan o Cymru Ar-lein, caiff fforwm ei sefydlu i fwrw ymlaen â datblygiadau allweddol ym maes TGCh Cymraeg a chaiff siaradwyr Cymraeg eu hannog i feithrin sgiliau TGCh drwy'r ymgyrch 'mentro mwy'. Bydd y Cynulliad yn gweithio'n agos â'r rheini yn y sector addysg uwch, megis Prifysgol Cymru Bangor, sy'n arwain y ffordd yn y maes hwn.

**Gwella cyfleusterau TGCh i'r Gymuned Fusnes**

**C13 Alun Cairns:** A wnaiff y Trefnydd ddatganiad ar wella'r cyfleusterau TGCh i'r gymuned fusnes? (OAQ13722)

**Andrew Davies:** Fe'ch cyfeiriaf at yr atebion a roddais i Peter Black (OAQ13717) a David Melding (OAQ13712) yn y Cyfarfod Llawn yn gynharach heddiw.

**Cyfathrebu Band Llydan**

**C14 Ieuan Wyn Jones:** Pa gynlluniau sydd ganddo i ddefnyddio'r galw cyhoeddus am gyfathrebu band llydan i sbarduno cysylltiad preifat ehangach? (OAQ13710)

**Andrew Davies:** Yn ddiweddar, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru a minnau fenter i helpu datblygu rhwydwaith ystod lydan i gynnal dysgu gydol oes yng Nghymru. Mae'r Cynulliad yn darparu £18.4 miliwn eleni a £6 miliwn yn y blynyddoedd dilynol i ysgogi creu rhwydwaith dysgu gydol oes band llydan yng Nghymru. Bydd yn adeiladu ar y seilwaith sector cyhoeddus presennol i ddarparu cysylltiadau rhwydwaith cyflymder uchel a chysylltiad â'r rhyngrwyd i ysgolion, llyfrgelloedd a chanolfannau dysgu TGCh. Nid yn unig y bydd y rhaglen gynyddol hon yn sicrhau bod y sector cyhoeddus yn cael y gwerth am arian gorau posibl drwy gyfuno'r galw mewn modd ymarferol a phriodol, bydd hefyd yn golygu y bydd rhagor o wasanaethau band llydan yn cael eu derbyn yn gynharach. Dylai'r cynnydd hwn yn y galw fod yn fodd i ysgogi'r farchnad, gan wneud cystadlu yn fwy dichonol. Mewn cydweithrediad â'r WDA byddwn yn rhoi ar waith yr argymhellion polisi a geir yn adroddiad Analsys ar ddarparu seilwaith ystod lydan ym mhobman yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyried dulliau posibl o ddarparu'r seilwaith hwn mewn parciau busnes strategol, canolfannau gweithgaredd busnes sydd yn seiliedig ar wybodaeth er mwyn darparu cysylltiad da â'r ystod lydan am bris priodol i ganiatáu i'r busnesau presennol ddefnyddio TGCh ac e-fasnach i dyfu ac arloesi.

**Annog Busnesau Bach a Chanolog eu Maint i Ddefnyddio E-fasnach**

**C15 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau a gymerir i annog busnesau bach a chanolig eu maint i ddefnyddio e-fasnach yng Nghymru? (OAQ13711)

**Andrew Davies:** Fe'ch cyfeiriaf at yr atebion a roddais i Peter Black (OAQ13717) a David Melding (OAQ13712) yn y Cyfarfod Llawn yn gynharach heddiw.